# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Cwmnedd**

**Ysgol Gymraeg Cwmnedd**
**Stryd Newydd**
**Glyn Nedd**
**Castell-nedd**
**SA11 5AA**



## Dyddiad Cyhoeddi

**4 Rhagfyr 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cafodd Cylch Meithrin Cwmnedd ei gofrestru yn 2002 ac mae'n darparu gofal sesiynol ar gyfer hyd at 20 o blant o ddwy flwydd oed. Mae'n gweithredu o gaban ar dir Ysgol Gymraeg Cwmnedd. Mae ar agor rhwng 8.45am a 11.45am o ddydd Llun i ddydd Gwener. Tracey Evans yw'r person cofrestredig a'r person â chyfrifoldeb. Cymraeg yw iaith y gofal. Mae lleoedd Dechrau'n Deg ar gael yn y grŵp chwarae.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

1. **Asesiad cyffredinol**
   Mae'r plant sy'n mynd i Gylch Meithrin Cwmnedd yn hapus iawn ac wedi setlo'n dda. Maent yn cael gofal gan staff tyner, caredig a sefydledig sydd wedi ymrwymo i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'n amlwg bod y plant yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth ac yn cael budd o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio a chyfleoedd chwarae distrwythur. Mae'r rhieni'n hapus â chynnydd eu plant a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

2. **Gwelliannau**
   Mae'r gwasanaeth wedi symud i gaban ag ardal amgaeedig yn yr awyr agored.

3. **Gofynion ac argymhellion**
   Rydym yn argymell bod plant yn cael mwy o gyfle i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Gall y plant yng Nghylch Meithrin Cwmnedd wneud dewisiadau ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Maent yn hapus, yn ddiogel ac yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maent yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant yng Nghylch Meithrin Cwmnedd ddewis, maent yn cyfathrebu â'i gilydd a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt ac mae'r oedolion hynny'n gwrando arnynt.

Cafodd y plant gyfleoedd yn ystod y sesiwn i wneud dewisiadau personol. Yn ystod gweithgaredd crefft, gwnaeth y plant ddewis amrywiaeth o siapiau lliw i'w gludo ar eu heliffantod i gynrychioli "Elfed yr eliffant". Yn yr awyr agored, dewisodd y plant amrywiaeth o gyfarpar gwneud marciau a gwnaethant farcio'r papur yn rhydd. Ymatebwyd yn gadarnhaol i geisiadau'r plant a gwrandawyd arnynt. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, gofynnodd y plant am fwy o laeth a chawsant fwy. Aeth y plant at y staff yn hapus i ofyn am help, i ddangos rhywbeth iddynt neu i ofyn iddynt gymryd rhan mewn gweithgaredd. Yn yr awyr agored, aeth plentyn at aelod o staff yn gyffrous i dynnu ei sylw at löyn byw ar y ffens. Gwenodd y plentyn yn llawn balchder wrth i'r aelod o staff ymateb gan ddweud “Waw” a gwnaeth alw'r plant eraill i ddod i weld y glöyn byw. Y tu mewn i'r cylch meithrin, gofynnodd plentyn a allai ymuno â gweithgaredd i drefnu gwrthrychau yn y blychau lliw cywir. Gwenodd y plentyn yn hapus wrth i aelod o staff dynnu cadair allan iddo gymryd rhan yn y gweithgaredd. Gofynnodd plentyn i aelod o staff ddal ei ddoli wrth iddo agor clipiau ei fygi. Gwenodd yn hapus i'r aelod o staff wrth iddo ddychwelyd y ddoli.

Mae gan y plant lais cryf.

### 1.2 I ba raddau mae’r plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac wedi setlo'n dda yn y gwasanaeth. Maent yn hapus, yn gartrefol ac yn teimlo bod y staff yn eu gwerthfawrogi.

Roedd y plant yn chwarae'n hapus yn y gwasanaeth. Aeth un plentyn at y staff sawl gwaith yn ystod y sesiwn am sicrwydd a chofleidiad. Gwnaeth yr aelod o staff ymateb yn gadarnhaol bob tro yr oedd y plentyn yn dod ato. Rhoddodd gofleidiad i'r plentyn cyn iddo ddychwelyd i chwarae yn hapus. Roedd y plant wedi ymlacio ac wedi ymgolli'n llwyr yn eu chwarae. Gwnaeth y plant chwarae siop y tu allan. Gwnaethant lenwi eu basged â bwyd chwarae rôl cyn rhoi'r holl eitemau ar gefn eu beic a phedlo i ffwrdd yn hapus. Y tu mewn, roedd y plant yn canu'n dawel bach wrth iddynt orwedd ar y llawr a gwthio ceir i lawr ramp.  Roedd holiaduron i rieni yn cadarnhau bod y plant

yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth.  Er enghraifft, gwnaeth un ysgrifennu "My child really enjoys his time at cylch meithrin."

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n gyson.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau ac maent yn dechrau rhannu, cymryd eu tro a chydweithredu.

Mae'r plant yn chwarae ar eu pen eu hunain, ochr yn ochr ag eraill ac mewn parau. Y tu allan, aeth un plentyn â doli at ei ffrind a'i rhoi yn ei fygi. Yna gwnaeth y ddau blentyn ddilyn ei gilydd o amgylch yn hapus gan wthio eu bygis. Roedd y plant yn cymryd eu tro, gwnaeth un plentyn bedlo tra bod plentyn arall yn sefyll ar y platfform ar gefn y beic ac yna gwnaethant gyfnewid eu rolau'n naturiol.  Gwnaeth un plentyn baned o de i'w ffrind yn y gornel chwarae rôl ac yna rhoddodd blât o fwyd chwarae rôl iddo. Gwenodd ei ffrind yn ddiolchgar ac esgus bwyta ac yfed. Roedd y plant yn cynnwys y staff yn eu chwarae ac yn rhoi paneidiau o de a bwyd chwarae rôl iddynt. Roedd y plant yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd wrth iddynt rolio playdough. Gwnaethant rannu'r rholbrennau a'r torwyr. Dilynodd y plant ei gilydd o amgylch yr ystafell tra eu bod yn cario ffigurau deinosoriaid mawr gan ruo at ei gilydd a gwenu o glust i glust.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn dangos diddordeb ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Maent yn cynnal eu diddordeb mewn gweithgareddau ac yn gyfarwydd â chwarae strwythuredig a chwarae rhydd.

Roedd y plant yn archwilio'r amgylchedd yn ddirwystr ac yn mynd ar ôl teganau ac adnoddau'n hyderus yn ôl eu dymuniad. Parodd y plant y cyllyll a ffyrc lliw yn hapus â llun wedi'i lamineiddio yn y gornel chwarae rôl. Chwaraeodd y plant yn frwdfrydig gydag offerynnau cerdd a chwerthin yn uchel wrth wneud hynny. Aeth un plentyn i nôl ffigurau deinosoriaid ar ei gyfer a'i ffrind. Gwnaeth y plant chwarae'n hapus gyda'r deinosoriaid. Canolbwyntiodd y plant am amser hir gan ddewis a gludo'r siapiau lliw. Gwnaeth y plant ymfywiogi a chyffroi pan oedd hi'n amser chwarae yn yr awyr agored. Roeddent yn mwynhau reidio beiciau, chwarae siop, gwthio bygis a gwneud marciau. Ymunodd y plant â chaneuon actol yn ystod amser cylch yn frwdfrydig ac roeddent yn mwynhau gweld y pyped mawr o'r enw Siôn.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu'n fawr iawn.

## 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u hannibyniaeth.

Gwnaeth y plant olchi a sychu eu dwylo cyn amser byrbryd. Maent yn taenu eu menyn ar eu tost eu hunain yn ystod amser byrbryd. Gwnaethant dacluso ar adegau amrywiol yn ystod y sesiwn ac roedd hi'n amlwg eu bod yn gyfarwydd â'r drefn. Anogwyd y plant i adnabod eu bagiau a'u cotiau eu hunain at ddiwedd y sesiwn yn ogystal â gwisgo eu hunain.

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn cael rhywfaint o gyfleoedd i fod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn diwallu anghenion y plant yn gyson am eu bod yn eu hadnabod yn dda. Maent yn ymrwymedig i ddarparu gweithgareddau amrywiol i'r plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn ymwybodol o bolisi amddiffyn plant y gwasanaeth a'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt bryder am blentyn. Mae'r gwasanaeth yn hybu ffyrdd iach o fyw.

Roedd y staff yn gwybod bod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o ddelio â phryderon neu ddatgeliadau pan roddwyd senarios gwahanol iddynt. Roedd y staff wedi diweddaru eu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatreg ac roedd gweithdrefnau clir ar waith i ddelio â digwyddiadau. Roedd y staff a'r rhieni'n llofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd y staff wedi sicrhau bod y plant wedi golchi eu dwylo cyn eistedd i lawr i gael byrbryd. Darparwyd tost, ffrwythau a dŵr neu laeth fel byrbryd iach. Roedd yr ardal awyr agored yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth ac roedd y plant yn cael cyfle i chwarae yn yr awyr agored bob dydd. Ymunodd y gwasanaeth â'r cynllun cyn-ysgol iach a chynaliadwy ac roeddent wedi cwblhau'r adran maeth ac iechyd y geg. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn cynllun brwsio dannedd cenedlaethol.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn ffordd fedrus.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae gan y gwasanaeth bolisi ar hybu ymddygiad cadarnhaol ac mae'r staff yn rheoli rhyngweithio mewn ffordd gyson.

Roedd y staff wedi canmol y plant am ymddwyn yn dda ac wedi ymateb i'r plant a oedd am gael cwtsh neu sicrwydd. Roedd y staff yn siarad yn garedig ac yn gysurol â phlentyn a oedd yn dod atynt am sicrwydd ar sawl achlysur. Gwnaethant roi sicrwydd i'r plentyn y byddai ei rieni yn ei gasglu yn fuan a'i gofleidio gan alluogi'r plentyn i ddychwelyd i chwarae'n hapus. Ymatebodd y staff yn gadarnhaol ac yn gyson drwy gydol y sesiwn. Er enghraifft, roedd un plentyn yn canu'n dawel bach wrth iddo chwarae'n annibynnol. Dywedodd un aelod o staff “That is beautiful singing.” Pan wnaeth plentyn orffen gludo, dywedodd aelod o staff “Hyfryd! Da iawn!". Mae'r staff yn fodelau rôl da, ac yn siarad yn gwrtais ac yn garedig â'i gilydd a'r plant.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r plant yn cael gofal gan staff gofalgar a thyner sy'n gwybod am hoffterau a galluoedd unigol y plant.
Roedd y staff yn dilyn egwyddorion y cyfnod sylfaen ac yn cynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar y meysydd gwahanol. Gwnaeth y staff gynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar themâu megis lliwiau. Defnyddiwyd straeon megis "Elfed yr eliffant" fel ysgogiad. Cynlluniwyd gweithgareddau megis trefnu gwrthrychau yn lliwiau a gludo papur lliw gwahanol ar eliffant. Roedd gweithiwr allweddol ar gyfer pob plentyn ac roedd yn arsylwi ar weithgareddau â ffocws ac yn cadw cofnodion olrhain unigol. Roedd cofnodion datblygu unigol yn cofnodi manylion megis sgiliau siswrn, paru lliwiau, cyfrif i ddeg yn Gymraeg a dal pensil mewn siâp trybedd. Roedd y staff yn cofnodi hoffterau'r plant, fel eu hoff fyrbryd a'u hoff degan, cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth.

Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn galluogi'r plant i chwarae mewn ardal ddiogel gydag amrywiaeth o gyfleoedd ac adnoddau. Mae'r caban wedi'i drefnu i fodloni pob un o feysydd y Cyfnod Sylfaen. Mae ardal awyr agored ddynodedig sy'n amgaeedig ac yn cynnwys adnoddau da.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Maent yn sicrhau bod risgiau'n cael eu dileu i'r graddau sy'n bosibl.

Roedd y giât y tu allan yn cael ei chadw ar gau a'i hagor gan y staff er mwyn caniatáu i'r plant gyrraedd a gadael y gwasanaeth. Defnyddiwyd llyfr ymwelwyr i gofnodi pawb sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau ar gyfer yr ardal dan do a'r ardal awyr agored ac roedd risgiau wedi'u dileu i'r graddau sy'n bosibl. Roedd yr holl gyfarpar glanhau yn cael ei gadw'n ddiogel mewn cwpwrdd yn y gegin, ac roedd bariau diogelwch yn ei amgylchynu. Roedd pob darn o gyfarpar wedi cael prawf PAT. Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru â'r asiantaeth safonau bwyd. Roedd ymarferion tân yn cael eu cofnodi a'u cynnal yn rheolaidd. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol i'w gweld ar hysbysfwrdd y gwasanaeth.

Mae'r staff yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd yn effeithlon.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn addas i blant ac mae gwaith y plant yn cael ei arddangos ar y waliau.

Roedd y caban wedi cael ei drefnu i gynnwys amrywiaeth o ardaloedd chwarae. Roedd y rhain yn cynnwys: cornel ddarllen, cornel chwarae rôl, ardal byd bach ac ardal greadigol. Roedd yr arddangosfeydd yn cynnwys y tri mochyn bach a golygfa dan y dŵr. Roedd yr ardal awyr agored yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth ac roedd yn gaeedig. Roedd ramp yn rhoi mynediad uniongyrchol o'r caban i'r ardal awyr agored. Roedd yr ardal hon wedi'i datblygu'n dda ac roedd digon o gyfleoedd chwarae ar gael i'r plant. Defnyddiwyd y sied fel siop chwarae rôl, roedd y gwelyau wedi'u codi yn ardal ar gyfer y bwystfilod bach a defnyddiwyd y bwrdd picnic i wneud marciau. Gosodwyd matiau ar y llawr er mwyn i'r plant chwarae gyda cherbydau bach ac roedd tywod cludadwy a chafnau dŵr yn galluogi'r plant i chwarae mewn sawl ffordd.

Mae'r amgylchedd yn addas iawn i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r plant yn cael budd o adnoddau, cyfarpar a theganau o ansawdd da.

Roedd y cyfarpar a'r adnoddau o ansawdd da ac yn addas at y diben. Roedd y staff yn darparu dodrefn o faint sy'n addas i blant er mwyn galluogi'r plant i eistedd wrth fyrddau'n annibynnol a chael gafael ar deganau a chyfarpar. Roedd yr adnoddau a'r cyfarpar mewn cyflwr da ac yn lân. Roedd digon o adnoddau i'r plant ddewis ohonynt. Roedd llyfrau a theganau amlddiwylliannol ar gael ac fe'u defnyddiwyd wrth edrych ar thema benodol. Roedd y toiledau a'r sinciau bach yn ddigon hawdd i'r plant eu cyrraedd.

Mae'r arweinwyr a'r staff yn darparu adnoddau a chyfarpar o ansawdd da ac yn eu cynnal a'u cadw.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yng Nghylch Meithrin Cwmnedd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a bod lefelau staffio'n gywir. Maent yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu a bod y staff yn cael cyfleoedd hyfforddi rheolaidd. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da â'r gymuned.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig i blant hyd at 12 oed.

Gwnaeth yr arweinwyr sicrhau bod y staff yn rhoi polisïau'r gwasanaeth ar waith yn llawn. Caiff y polisïau eu hadolygu'n flynyddol ac roeddent wedi llunio polisïau newydd gan gynnwys; polisi lluniau digidol, polisi newid cewynnau, polisi ymddygiad cadarnhaol a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r tîm staff yn cydweithio'n effeithiol gyda chymorth yr arweinydd. Roedd y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol cenedlaethol ac roedd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac roedd yn amlwg bod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni, a roddodd adborth cadarnhaol ar y gwasanaeth.  Cafodd hyn ei gadarnhau mewn holiaduron i rieni a nododd "We recommend the cylch meithrin to anyone and staff are very friendly and approachable.", er enghraifft.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol yn y gwasanaeth hwn.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn ystyried barn y rhieni a'r staff.

Gwnaeth yr arweinwyr adolygu'r gwasanaeth yn flynyddol a llunio adroddiad. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod bob amser yn chwilio am feysydd i'w datblygu a'u gwella a chynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod. Roedd hyn yn amlwg yn yr adroddiad eleni a oedd yn tynnu sylw at yr angen i ddarganfod safleoedd newydd. O ganlyniad, symudodd y gwasanaeth i safle newydd mewn caban ar dir ysgol Gymraeg Cwmnedd. Ymunodd yr arweinwyr â chynllun cyn-ysgol iach cenedlaethol a gwnaethant gwblhau'r adran gyntaf, a oedd yn cynnwys maeth ac iechyd y geg. Roedd cynlluniau ar waith i gyflawni adran nesaf y cynllun.

Mae'r trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn dda.

## 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod lefelau staffio'r gwasanaeth yn gywir a bod digon o weithgareddau ar gael i nifer y plant sy'n bresennol.

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol ac roedd yr holl wiriadau angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Roedd gan y staff gymwysterau addas. Roedd arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ac roeddent yn nodi anghenion hyfforddi a thargedau datblygu personol. Roedd y staff yn cael sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd. Roedd yr holl hyfforddiant craidd yn gyfredol ac roedd y staff wedi mynd i nifer o gyrsiau hyfforddi eraill megis; rheoli ymddygiadau heriol, yoga 'mini me', hyfforddiant ar brofedigaeth ac epilepsy.

Mae'r ffordd y caiff y staff a'r adnoddau eraill eu rheoli yn dda.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr a'r staff gydberthnasau da â'r rhieni a gofalwyr. Mae ganddynt gysylltiadau da â'r ysgol y mae'r gwasanaeth yn ei bwydo ac asiantaethau allanol eraill.

Roedd y rhieni a'r gofalwyr wedi siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a'r staff. Cadarnhawyd hyn mewn holiaduron i rieni a oedd yn nodi, “I think the Cylch Meithrin is a huge benefit to the community and provides opportunities for the children to socialise and learn in a friendly and positive learning environment.” Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus â'r wybodaeth yr oeddent wedi'i chael am y gwasanaeth ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am ddatblygiad eu plentyn. Mae'r gwasanaeth yn rhannu eu hardal awyr agored â dosbarth meithrin yr ysgol. Dywedodd y Pennaeth wrthym ei bod hi'n teimlo bod y plant yn cael budd o rannu safle â'r ysgol gan fod hyn yn eu helpu i bontio i ddosbarth meithrin yr ysgol. Dywedodd y rhieni wrthym hefyd eu bod yn teimlo bod y plant yn cael budd o fod ar safle'r ysgol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant ag anghenion ychwanegol yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt drwy ofyn am gymorth a chanllawiau gan asiantaethau allanol.

Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau ardderchog â'r rhieni a chysylltiadau â'r gymuned ac asiantaethau allanol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell bod plant yn cael mwy o gyfle i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Gwnaeth yr arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ddwywaith ar 27 a 28 Medi 2018 am gyfanswm o 4 awr. Rhoddwyd adborth ar ddiwedd yr arolygiad.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau gan gynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, cofnodion hyfforddi a chofnodion damweiniau;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant;
- arsylwi ar blant yn defnyddio adnodd SOFI (fframwaith arsylwi byr ar gyfer arolygu) ac arsylwadau grŵp cyffredinol, a
- siarad â'r person cofrestredig, y person â chyfrifoldeb, y staff a'r plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Tracey Evans** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Tracey Evans** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **20** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-3 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 8.45am a 11.45am o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **8 Hydref 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **27 a 28 Medi 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |